

Theatr Clwyd

Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Adeiladu
Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug

36 awr ar gael

Yn ddelfrydol rydym yn chwilio am 2 ymgeisydd i rannu'r swydd hon, ond byddwn yn ystyried un person

Contract Cyfnod Penodol tan 31/03/2021

Graddfa TC05 - SCP 13-18

(Cyflog o £17,391 i £18,870 pro-rata)

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976 ac mae'r Tîm Gweithredol, y Cyfarwyddwr Artistig Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Liam Evans-Ford, yn arwain y theatr drwy gyfnod cyffrous o newid, gan adeiladu ar ragoriaeth a balchder y gorffennol i greu canolfan ddeinamig a chreadigol ar gyfer y celfyddydau yn y dyfodol.

Mae'r Adran Gweithrediadau yn gyfrifol am swyddogaethau logisteg yr adeilad. Yn rhan greiddiol iddi mae hybu a chynnal profiad rhagorol i'r gynulleidfa a sicrhau bod Theatr Clwyd yn amgylchedd croesawus a diogel i'r cyhoedd, artistiaid sy'n ymweld, a staff.

Rydym yn chwilio am ymgeisydd sydd â phrofiad mewn gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio i gyflawni sgiliau anarbenigol yn adeilad y theatr, a'r gosodiadau a'r ffitiadau ar y tir. Yn ddelfrydol rydym yn chwilio am 2 ymgeisydd i rannu'r swydd hon o 36 awr, ond byddwn yn ystyried un person os mai ef neu hi fydd yr ymgeisydd addas ar gyfer y swydd. Os ydych chi'n chwilio am oriau rhan amser, nodwch yn glir yn y dogfennau ategol sydd yn y cais yr oriau rydych yn fodlon eu gweithio.

Dylai'r ymgeiswyr fod â phrofiad blaenorol o weithio mewn rôl debyg mewn amgylchedd tebyg a bod yn barod i weithio oriau hyblyg, gan gynnwys gyda'r nosau, penwythnosau a gwyliau banc.

Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch ag:

Enw: Andy Reilly-Price

Teitl Swydd: Rheolwr Gweithrediadau

Rhif Ffôn: 01352 701882

Bydd trefniadau gweithio rhan amser, rhannu swydd a hyblyg yn cael eu hystyried.

Mae Theatr Clwyd yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac mae wedi ymrwmo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr

sydd yn gallu gweithio yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi gweithwyr newydd a rhai sydd eisoes yn gweithio gyda ni sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau Cymraeg.